**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNED, TAI AC ASEDAU**
**DYDD MERCHER, 10 MAWRTH 2021**

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gymunedau, Tai ac Asedau Cyngor Sir Y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod mynychu o bell ar ddydd Mercher, 10 Mawrth 2021

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ian Dunbar (Cadeirydd)**
Cynghorwyr: Geoff Collett, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Mared Eastwood, Veronica Gay, Dennis Hutchinson, Brian Lloyd a Kevin Rush

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Ray Hughes

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Haydn Bateman a Patrick Heesom (fel arsyllwyr)

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Dave Hughes (Aelod Cabinet dros Dai); Y Cynghorydd Billy Mullin (Aelod Cabinet dros Reolaeth Corfforaethol ac Asedau), Prif Swyddog (Tai ac Asedau), Rheolwr Budd-daliadau, Rheolwr Gwasanaeth Tai ac Atal ac Uwch Reolwr Tai ac Asedau

**MYNYCHWYD GAN:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu ar Gymunedau a Menter, Swyddogion Gwasanaethau Democratig

## 46. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Dim

## 47. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL A OLRHAIN GWEITHRED

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu y Flaenraglen Waith bresennol. Cyfeiriodd at yr eitemau a restrwyd ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor fydd yn cael ei gynnal ar 19 Mai 2021 gan egluro y byddid yn adrodd ar yr eitem ar Drosglwyddo Asedau Cymunedol, y rhestrwyd ar gyfer ei ystyried, i gyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Addysg, Ieuenctid a Diwylliant yn hytrach. Nid oedd unrhyw newidiadau eraill i'r Flaenraglen Waith fel yr adroddwyd ar hynny yn y cyfarfod diwethaf. Dywedodd bod gwaith yn mynd rhagddo ar amserlennu cyfarfodydd o Fedi 2021 ymlaen ac y byddid yn cyflwyno dyddiadur drafft i gyfarfod blynyddol y Cyngor Sir ar 11 Mai ar gyfer ei gymeradwyo.

Cyfeiriodd yr Hwylusydd at yr adroddiad tracio gweithgareddau a atodwyd i'r adroddiad. Dywedodd bod y gweithgaredd unigol a gododd o'r cyfarfod diwethaf wedi cael ei gwblhau ac yr ychwanegwyd diweddariad ar y System Rhestrydd Adnoddau Deinamig (DRS) i'r Blaengynllun Gwaith fel eitem i'w ystyried gan y Pwyllgor i'r dyfodol.

Awgrymodd y Cynghorydd Dennis Hutchinson bod y Pwyllgor yn derbyn adroddiad er mwyn darparu manylion ar y broses dyrannu tai i Aelodau. Dywedodd Y Cynghorydd Dave Hughes ei fod wedi gofyn am gyflwyniad ar bolisi SARTH a'r polisi dyrannu er mwyn diweddaru'r holl Aelodau, a rhoddodd sicrwydd y byddai hynny yn digwydd. Cytunodd y Rheolwr Gwasanaeth Tai ac

Atal i ddarparu sesiwn friffio i'r Pwyllgor cyn dechrau cyfarfod yn y dyfodol er mwyn rhoi trosolwg ar sut yr oedd y polisi SARTH yn gweithio, a mwy o eglurder ar y broses ddyrannu.

Cynigiwyd yr argymhellion ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorwyd Ron Davies a Dennis Hutchinson

**PENDERFYNWYD:**

(A) Nodi'r Blaenraglen Waith;

(B) Awdurdodi'r Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Blaenraglen Waith rhwng cyfarfodydd, fel bo'r angen yn codi; a

(C) Nodi'r cynnydd a wneir o ran cwblhau'r camau sydd ar ôl i'w cwblhau.

**48. <u>ADFYWIO'R STOC TAI BRESENNOL</u>**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai ac asedau) adroddiad er mwyn darparu diweddariad ar gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS) yr oedd y Cyngor yn ei ddarparu drwy ei Raglen Buddsoddi Cyfalaf. Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar y llwyddiannau a'r daith hyd yma. Eglurodd y byddai'r Rhaglen Waith WHQS wedi cyrraedd ei blwyddyn olaf (2020-2021) o'r Rhaglen Gyfalaf chwe blynedd, ond fe'i hestynnwyd am flwyddyn arall oherwydd effaith pandemig Covid. Roedd yr adroddiad yn ddiweddariad ar yr hyn oedd wedi ei gyflawni a sydd i'w gyflawni cyn y terfyn amser estynedig yn Rhagfyr 2021.

Darparodd Uwch Reolwr Tai ac Asedau wybodaeth gefndirol a chyflwynodd ystyriaethau allweddol fel y manylwyd ar hynny yn yr adroddiad. Dywedodd bod yna nifer o eiddo ble nod oedd y Cyngor yn gallu darparu'r WHQS oherwydd, am amrywiaeth o resymau, ni roddodd y tenantiaid ganiatâd i'r gwaith gael ei wneud, ond pan fo'r eiddo yn dod yn wag, roedd y gwaith yn cael ei wneud er mwyn codi'r eiddo i'r safon ofynnol. O 23 Mawrth 2020 daeth yr holl waith WHQS ar eiddo'r cyngor ac ardaloedd cymunol i ben, gyda'r adnoddau yn cael eu canolbwyntio ar eiddo oedd yn cael eu cau/cwblhau'n ddiogel a sicrhau bod yr holl denantiaid a gwaith yn cael ei gadael yn ddiogel. O ran elfen gyfalaf y gwaith, parhaodd yr holl waith ymatebol, brys a chydymffurfiaeth. Ar ôl llacio'r cyfyngiadau clo a chyhoeddi mwy o ganllawiau ar 14 Mehefin 2020, cymerwyd mwy o gamau. Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda Llywodraeth Cymru (LlC) ar effaith y pandemig ar raglen WHQS.

Dywedodd yr Uwch Reolwr Tai ac Asedau bod y Gwasanaeth wedi bod yn destun archwiliadau ac adolygiadau ar berfformiad y Cyngor o ran darparu'r WHQS. Rhoddodd sicrwydd bod Swyddfa Archwilio Cymru (WAO) ac Archwilio Mewnol wedi canfod bod y Cyngor yn gwneud cynnydd da tuag at gyrraedd WHQS ac ni chodwyd unrhyw faterion sylweddol. Adroddodd hefyd bod yr archwiliadau wedi nodi bod tenantiaid y Cyngor yn fodlon ag ansawdd y gwaith a wnaethpwyd ar eu cartrefi a dywedodd bod Arolwg Bodlonrwydd Tenantiaid WHQS ar 96% (yr uchaf hyd yma).

Adroddodd yr Uwch Reolwr Tai ac Asedau bod LlC wedi ymrwymo i greu sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030 ac i gydlynu camau er mwyn helpu

meysydd eraill yr economi i roi'r gorau i ddefnyddio tanwydd ffosil.  Roedd Deddf Yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i LIC leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr (GHG) yng Nghymru o 80% o leiaf erbyn 2050, gyda system o dargedau allyriadau interim a chyllidebau carbon.  Byddai'n ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod ei gartrefi yn cyflawni'r lefel uchaf posibl o ran effeithiolrwydd thermol a pherfformiad ynni (EPC lefel A) erbyn 2030.  Fel rhan o'r WHQS, ar hyn o bryd mae'n ofynnol i eiddo'r Cyngor fodloni isafswm o SAP 65 (EPC Lefel D).  Mae trafodaethau â LIC yn parhau ynghylch y gofyniad i gaffael a chyflawni rhaglen ôl-osod fawr.  Yn ystod y 12 mis nesaf bydd swyddogion yn darparu cynlluniau fel rhan o'r rhaglen reoli asedau a datgarboneiddio ehangach i Aelodau i'w hystyried, fydd yn cynnwys yr heriau a'r opsiynau buddsoddi.

Yn ogystal â'r gwaith y manylwyd arno yn yr adroddiad, dywedwyd wrth yr Aelodau bod angen ystyried mater ehangach y posibilrwydd o gynnal cynlluniau adfywio ar rai o ystadau'r Cyngor yn hytrach nag ymrwymo i ased fydd yn ddrud i'w cynnal, fydd â nifer uchel o lefydd gwag ac sydd yn ddrud i'w gwresogi a'i cynnal i'r tenant.

Mynegodd y Cadeirydd ei gefnogaeth i'r cynnydd a wnaethpwyd o ran darparu'r rhaglen WHQS.  Mynegodd bryderon ynghylch recriwtio i'r Cyngor er mwyn sicrhau bod ei stoc tai yn bodloni effeithiolrwydd thermal a pherfformiad ynni (EPC lefel A) erbyn 2030. Rhoddodd sylwadau hefyd ar Wrthodiadau Tenantiaid neu Ddim Mynediad (Methiannau Derbyniol) a gofynnodd pa gynnydd oedd yn cael ei wneud ynghylch y broblem hon.  Eglurodd yr Uwch Reolwr Tai ac Asedau bod gwrthodiadau yn digwydd am nifer o resymau, a phetai'r tenant yn newid ei feddwl, y gallai'r gwaith gael ei wneud yn ddiweddarach.  Petai'r eiddo yn dod yn wag, pwysleisiodd y byddai'r gwaith yn cael ei wneud er mwyn bodloni gofynion WHQS.  Gan gyfeirio at y pryderon a fynegwyd ynghylch EPC Lefel A, dywedodd bod Arolygon Cyflwr Stoc Mewnol y Cyngor yn cynnig dealltwriaeth dda o effeithiolrwydd thermol pob eiddo ac mai hynny oedd y ffordd fwyaf effeithiol o ddod â'r stoc tai i'r lefel EPC gofynnol.

Dywedodd y Cynghorydd Dennis Hutchinson bod y gwelliannau a wnaed i stoc tai y Cyngor i'w canmol.  Gofynnodd am sicrwydd y byddai'r Gwasanaeth yn cyrraedd y targedau a nodwyd gan LIC ar gyfer WHQS a gofynnodd a fyddai cosbau yn cael eu rhoi neu beidio.  Dywedodd y Prif Swyddog bod LIC wedi bod yn hyblyg o ran caniatáu estyniad o 12 mis i awdurdodau lleol oedd wedi gofyn am hynny fel cydnabyddiaeth o effaith y pandemig ar weithredu rhaglen WHQS. Dywedodd bod swyddogion mewn cysylltiad rheolaidd â LIC, nad oedd yn bwriadu rhoi unrhyw gosbau, a rhoddodd sicrwydd b od y Cyngor yn gwneud cynnydd da tuag at gwblhau'r Rhaglen.  Hefyd rhoddodd y Prif Swyddog sylwadau ar y posibilrwydd o gael mwy o ffrydiau cyllid, fyddai'n golygu bod y gwaith yn parhau ac y byddid yn ceisio amcanion gwahanol i'r WHQS.

Dywedodd yr Uwch Reolwr Tai ac Asedau bod y prif waith oedd ar ôl i'w gwblhau ar eiddo'r cyngor yn waith allanol, a chyfeiriodd at estyniadau, llwybrau troed a gerddi fel enghreifftiau.  Dywedodd y gellid bwrw ymlaen â gwaith allanol yn gyflymach oherwydd nad oedd hynny angen yr un lefel mynediad â gwaith mewnol, ac felly roedd yn llai tebygol o gael ei wrthod gan y tenant.  Dywedodd bod yr holl waith mewnol sylweddol bron wedi ei gwblhau.

Ymatebodd y Prif Swyddog i'r sylwadau a'r pryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd Geoff Collett mewn perthynas â chost a chyfeiriad rhaglen datgarboneiddio LIC. Awgrymodd y Cynghorydd Collett y dylid cynnal gweithdy er mwyn galluogi Aelodau i ddeall y Strategaeth Datgarboneiddio yn well pan fo hynny'n briodol. Cytunodd yr Uwch Reolwr Tai ac Asedau i ddarparu seminar ar gyfer Aelodau ar ôl i'r Strategaeth gael ei datblygu er mwyn rhannu'r ystod o fesurau a gynigiwyd a sut y byddai hynny yn cael ei gymhwyso.

Mynegodd y Cynghorydd Brian Lloyd bryderon ynghylch yr amgylchedd yr oedd rhai tenantiaid wedi ei brofi y tu allan i'w cartrefi, gan gyfeirio at broblem annerbyniol ysbwriel yn cael ei adael mewn gerddi ffrynt a chefn, ffensys wedi torri ac ysbwriel, fel enghreifftiau. Gofynnodd pa gamau gorfodi ellid eu cymryd yn erbyn tenantiaid nad oedd yn cydymffurfio ag amodau eu tenantiaeth ac nad oedd yn ystyried eu cymdogion a'u cymunedau lleol. Dywedodd yr Uwch Reolwr Tai ac asedau y byddai gwaith atgyweirio i ffensys, llwybrau troed a gerddi etc. Yn cael ei nodi a'i wneud yn ystod cymal olaf y gwaith i gwblhau'r WHQS. Roedd y Gwasanaeth yn gwella'r broses o riportio achosion o dorri amodau tenantiaeth, er mwyn sicrhau y gallai pobl fyw mewn amgylchedd da a dymunol Dywedodd y Prif Swyddog nad oedd yn dderbyniol bod cymunedau lleol yn dioddef oherwydd nifer fechan o unigolion, a chyfeiriodd hefyd at fenter 'Tai Hyfryd' LIC oedd yn canolbwyntio ar greu llefydd mwy gwyrdd, parcio oddi ar y stryd etc. Cyfeiriodd at effaith y pandemig ac at oedi o ran prosesu materion gorfodi tenantiaeth yn gyfreithiol, ond dywedodd y byddai tenantiaid fyddai'n gwrthod cydymffurfio â'u hamodau tenantiaeth yn wynebu camau gorfodi maes o law beth bynnag.

Cynigwyd yr argymhelliad gan y Cynghorydd Ron Davies ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Kevin Rush.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r cynnydd a wnaed o rad darparu rhaglen WHQS a chefnogi'r Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf yn ystod ei blwyddyn olaf.

**49. <u>ADRODDIAD DIWEDDARU DIGARTREFEDD</u>**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth - Tai ac Atal adroddiad er mwyn darparu diweddariad ar y gwaith sydd wedi cael ei wneud i atal digartrefedd ledled Sir y Fflint. Darparodd wybodaeth gefndirol a chyfeiriodd at effaith pandemig Covid. Dywedodd bod yna dri cham i'r ymateb i ddigartrefedd a bod y Cyngor ar hyn o bryd ar gam 3, sef y symud i'r 'Normal Newydd' a dywedodd bod yna rai agweddau cadarnhaol a heriau o'n blaenau. Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth gyflwyniad oedd yn cynnwys y prif bwyntiau canlynol:

- Cam 1 Ymateb
- Cam 2 Cynllunio
- Cam 2 Arian Cyfalaf
- Cam 3 Y Normal Newydd
- Galw am wasanaethau
- Ymateb y tu allan i oriau
- Tai mewn achos brys
- Rhain sy'n cysgu ar y strydoedd
- Cefnogaeth tai

- Cofrestr tai
- Yr Holl dai cymdeithasol a osodir
- 50% enwebiadau Covid
- Teithiau pobl
- Hyb digartrefedd
- Gwasanaethau cymorth newydd
- Edrych i'r dyfodol

Diolchodd y cadeirydd i'r Rheolwr Gwasanaeth am ei adroddiad a'i gyflwyniad llawn gwybodaeth a siaradodd yn gefnogol i'r ymrwymiad brwdfrydig a llwyddiant y gwaith sydd wedi cael ei wneud er mwyn mynd i'r afael â phroblem digartrefedd yn y Sir.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Kevin Rush cytunodd y rheolwr Gwasanaeth i rannu'r rhif ffôn digartrefedd y tu allan i oriau i Aelodau yn dilyn cyfarfod.

Gofynnodd y Cynghorydd Dennis Hutchinson a oedd yna gynlluniau i ymestyn cyfleusterau a thai i bobl ddigartref i ardaloedd eraill yn y Sir yn ychwanegol i'r ardaloedd yr adroddwyd arnynt eisoes. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth bod angen cynyddu'r cyflenwad o dai cymdeithasol a llety rhent dros dro. Cyfeiriodd y Prif Swyddog at y strategaeth hirdymor ac at waith ar y rhaglen SHARP er mwyn adeiladu capasiti a hefyd er mwyn lleihau rhestrau aros am dai.

Cynigwyd yr argymhelliad gan y Cynghorydd Ron Davies ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Mared Eastwood.

**PENDERFYNWYD:**

(A) Nodi'r adroddiad; a

(B) Bod y gwaith sydd yn cael ei wneud gan y gwasanaeth yn parhau i gael ei gefnogi.

## 50. DIWEDDARIAD STRATEGAETH ADFERIAD

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) adroddiad er mwyn darparu trosolwg o'r cynlluniau adfer ar gyfer portffolios perthnasol y Pwyllgor. Cyfeiriodd at y gofrestr risg portffolio a'r camau lliniaru risg a atodwyd i'r adroddiad, ac adroddodd ar y risgiau coch canlynol: CF14, HA04, HA06, CP03, HA27, HA30, a HA33.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at risg CP11 (costau a chymhlethdodau ynghylch dychwelyd ac adsefydlu Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy o ganlyniad i gyfnod estynedig o'i defnyddio fel ysbyty brys) a gofynnodd a fyddai'r gost o adsefydlu yn cael ei ariannu gan y Cyngor neu'r Gwasanaeth Iechyd. Eglurodd y Prif Swyddog bod yr Ysbyty Enfys yn cael ei symud i gam cynllunio ar gyfer adsefydlu wrth i'r rhaglen frechu ranbarthol ddirwyn i ben. Fel rhan o'r rhaglen adsefydlu byddai'r Cyngor yn archwilio'r opsiynau fydd ar gael ar gyfer darparu ei wasanaethau hamdden a gwasanaethau eraill yn y dyfodol ar y safle.

Gofynnodd y Cynghorydd Dennis Hutchinson a ellid ystyried defnydd ar y cyd o'r safle gan y Cyngor Sir a BCUHB petai'r angen am ganolfan hamdden a gwasanaethau ysbyty yn parhau i'r dyfodol. Dywedodd y Prif Swyddog mai'r bwriad oedd adsefydlu Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy i'r un sefyllfa a darpariaeth gwasanaethau hamdden ag oedd yn bodoli cyn creu'r Ysbyty Enfys ar y safle.

Cynigwyd yr argymhelliad gan y Cynghorydd Dennis Hutchinson ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Geoff Collett.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r Gofrestr Risg ddiweddariedig a'r Camau Lliniaru Risg, fel yr amlinellwyd hynny yn yr adroddiad.

## 51. AELODAU'R WASG OEDD YN BRESENNOL

Roedd yna un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 11.56 am)

..................................................

**Cadeirydd**